BBC Photography, Recording, Patents & Inventions Policy

Note: the Welsh translation of this Policy can be found below.

This policy forms part of the contract of employment that applies to BBC employees in the UK on Grades 2-11, and is an agreed statement between the BBC and recognised joint unions which may only be varied by joint negotiation at the National Joint Council.

Definition

This policy outlines the provisions relating to photography and recording carried out by employees and inventions by employees. This policy covers:-

- The use of recording devices (e.g. cameras, mobile phones, webcams) on BBC premises or to record BBC activities.
- Employee contributions from recording devices that are commissioned by the BBC.
- Patents and Inventions made in the course of employment.

Principles

- The complete copyright in any work undertaken by employees in the course of their employment is owned by the BBC. This includes photographs and recordings taken by employees in the course of their duties or as a result of a commission, or contribution.
- Employees are not permitted to use any recording devices on BBC premises or to record BBC activities except where described by this policy.

The use of photography and recordings

Photographs and other forms of media are used by the BBC for a wide variety of purposes and are subject to strict editorial and quality control, including those found in the **BBC Editorial Guidelines**. It is therefore important to ensure that the copyright and commercial interests of the BBC are protected.

Photography or the recording of BBC activities through any device may only be undertaken by an employee or an accredited individual engaged specifically to carry out that role and/or activity, and in any event, such material may not be published or reproduced without the permission of the BBC, including online and on social media sites, e.g. Facebook, Twitter etc.

Employees who are not engaged as detailed in the paragraph above are not permitted to take photographs or record any BBC activities in any format whether in studios, other BBC premises or on location, unless authorised under the terms detailed in the sections below ‘Photography and recordings by employees’ and ‘Commissioning photography or recordings through other media’.

Photography and recordings by employees

Employees will be permitted to take still photographs or make recordings of BBC activities in the following circumstances:

- Employees who are required to take photographs or make recordings for their statutory function or for reference purposes only, e.g. accredited safety

representatives for safety reasons or location managers taking pictures for location purposes ('reference purposes' refers to photographs or recordings for internal use only and not for transmission or use in external publications);

- Employees who have been commissioned in advance to take pictures of or record a specific subject or activity by a BBC authorised commissioner of photography or employee contributions;
- Unforeseen circumstances, e.g. on remote locations;
- When permission has been granted by the line manager for employees to take photographs of social events, and specific permission of any artists present has been given, subject to terms on confidentiality.

Commissioning photography or recordings through other media

Where an employee has been commissioned in advance to take pictures of or record through other devices a specific subject, a Commission form must be completed which specifies the work required and the fee payable for the work involved.

Commission forms can only be issued by people authorised to commission photographs or contributions from other recording devices by the BBC.

Payment will be made through an employee contribution form and will be paid through the payroll.

Copyright in the commissioned photography will belong to the BBC, and the employee also agrees to waive their moral rights in relation to the material, so that the way in which the material is used and credited rests with the BBC.

Patents and Inventions

Patents and Inventions, including those made in the course of employment, are regulated by the *Patents Act 1977* and the *Copyright, Designs and Patents Act 1988*.

Inventions made in the course of employment

An employee who makes any invention in the course of employment must notify their Head of Department or nominated deputy immediately.

If required, the employee will, at the BBC's expense, supply the BBC with all necessary information, drawings and models, to explain the working of the invention.

An invention made by an employee belongs to the BBC when:

- It was made in the course of the employee's normal duties; *or*
- It was made in the course of duties falling outside normal duties, but specifically assigned to the employee, and
- in both cases an invention might reasonably be expected to result from carrying out those duties.

Any other invention made by an employee shall be taken for these purposes to belong to the employee.

The employee will be informed if the BBC decides not to apply for a patent in respect of an invention made by an employee in the course of employment. The employee is then at liberty to apply for a patent, on condition that if it is granted the BBC will have the right to a free licence to use the invention.

If a patent is granted to the BBC, the BBC will make an *ex gratia* payment appropriate to the circumstances to the employee. If there is more than one inventor the payment will be shared between them as the BBC may decide. Thereafter, the BBC may, at its discretion, make such further payments on an *ex gratia* basis as it thinks fair and reasonable.

Employee Contributions to BBC Programmes

Employees may, from time to time, be commissioned to make a contribution to a BBC programme which falls outside of their contract of employment. Such contributions may include written programme material, musical compositions, talks or performances.

Employees who are invited to contribute to a program should first obtain the permission of their manager.

Payment

Employees should receive the same level of fees as would be paid to professional contributors for similar work.

Performances that are recorded for a live broadcast should be paid. Performances which are rehearsed, but not recorded or broadcast should be paid for at a level which is proportionate to the amount of work done.

No direct payments should be made to employees for the use of material they have assigned or licensed to the Performing Right Society or the Mechanical Copyright Protection Society, except in the case of original fees for specifically commissioned music.

Contributions by employees do not attract a BBC Talent Rights Contract and payments for contributions by employees must be made through the payroll.

Polisi Ffotograffiaeth, Recordio, Patentau a Dyfeisiadau'r BBC

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r contract cyflogaeth sy'n gymwys i gyflogeion y BBC yn y DU ar Raddau 2-11, ac mae'n ddatganiad y cytunwyd arno rhwng y BBC a'r undebau cydnabyddedig ar y cyd na ellir ei amrywio ond drwy negodi ar y cyd yn y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

Diffiniad

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r darpariaethau sy'n ymwneud â ffotograffiaeth a recordio a gyflawnir gan gyflogeion a dyfeisiadau gan gyflogeion. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â:

- Defnyddio dyfeisiau recordio (e.e. camerâu, ffonau symudol, gwe-gamerâu) ar safleoedd y BBC neu i recordio gweithgareddau'r BBC.
- Cyfraniadau gan gyflogeion o ddyfeisiau recordio sydd wedi'u comisiynu gan y BBC.
- Patentau a Dyfeisiadau a wneir yn ystod cyflogaeth.

Egwyddorion

- Mae'r holl hawlfraint mewn unrhyw waith a gyflawnir gan gyflogeion yn ystod eu cyflogaeth yn eiddo i'r BBC. Mae hyn yn cynnwys ffotograffau a recordiadau a wneir gan gyflogeion wrth gyflawni eu dyletswyddau neu o ganlyniad i gomisiwn, neu gyfraniad.
- Ni chaniateir i gyflogeion ddefnyddio unrhyw ddyfeisiau recordio ar safleoedd y BBC na recordio gweithgareddau'r BBC ac eithrio lle mae hynny wedi'i ddisgrifio yn y polisi hwn.

Defnyddio ffotograffau a recordiadau

Mae'r BBC yn defnyddio ffotograffau a mathau eraill o gyfryngau at ddibenion amrywiol ac maent yn cael eu rheoli'n fanwl o safbwynt ansawdd a golygyddol, gan gynnwys y rheolau yng *Nghanllawiau Golygyddol y BBC*. Felly mae'n bwysig sicrhau bod hawlfraint a buddion masnachol y BBC yn cael eu diogelu.

Nid yw tynnu ffotograffau neu recordio gweithgareddau'r BBC drwy unrhyw ddyfais i'w gyflawni gan neb ond cyflogai neu unigolyn wedi'i achredu a gymerwyd ymlaen yn benodol i gyflawni'r rôl a/neu weithgarwch hwnnw, a pha un bynnag, ni cheir cyhoeddi neu atgynhyrchu deunydd o'r fath heb ganiatâd y BBC, gan gynnwys ar gyfryngau ar-lein a gwefannau cyfryngau cymdeithasol, e.e. Facebook, Twitter etc.

Nid yw cyflogeion sydd heb eu cymryd ymlaen fel y nodwyd yn y paragraff uchod yn cael tynnu ffotograffau neu recordio unrhyw weithgareddau gan y BBC mewn unrhyw fformat boed mewn stiwdio, ar safleoedd eraill y BBC neu ar leoliad, oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi o dan y telerau yn yr adrannau isod 'Ffotograffiaeth a recordiadau gan gyflogeion' a 'Comisiynu ffotograffau neu recordiadau drwy gyfryngau eraill'.

Ffotograffiaeth a recordiadau gan gyflogeion

Caniateir i gyflogeion dynnu ffotograffau llonydd neu wneud recordiadau o weithgareddau'r BBC o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Cyflogeion y mae'n ofynnol iddynt dynnu ffotograffau neu wneud recordiadau i gyflawni eu swyddogaeth statudol neu at ddibenion cyfeirio'n unig, e.e. swyddogion diogelwch a achredwyd am resymau sy'n ymwneud â diogelwch neu reolwyr lleoliad sy'n tynnu lluniau at ddibenion lleoliad (mae 'dibenion cyfeirio' yn golygu tynnu ffotograffau neu wneud recordiadau at ddefnydd mewnol yn unig ac nid i'w darlledu neu eu cynnwys mewn cyhoeddiadau allanol);
- Cyflogeion sydd wedi'u comisiynu ymlaen llaw i recordio neu dynnu lluniau o wrthrych neu weithgarwch penodol gan rywun sydd wedi'i awdurdodi gan y BBC i gomisiynu ffotograffau neu gyfraniadau gan gyflogeion;
- Amgylchiadau annisgwyl, e.e. mewn lleoliadau diarffordd;
- Os yw'r rheolwr llinell wedi rhoi caniatâd i gyflogeion dynnu ffotograffau o ddigwyddiadau cymdeithasol, a bod unrhyw artistiaid sy'n bresennol wedi rhoi caniatâd penodol, o dan delerau sy'n ymwneud â chyfrinachedd.

Comisiynu ffotograffau neu recordiadau drwy gyfryngau eraill

Lle mae cyflogai wedi'i gomisiynu ymlaen llaw i dynnu lluniau o wrthrych penodol neu ei recordio drwy ddyfeisiau eraill, rhaid llenwi ffurflen Comisiynu sy'n pennu'r gwaith gofynnol a'r ffi sy'n daladwy am y gwaith sy'n gysylltiedig.

Dim ond y rheini a awdurdodwyd i gomisiynu ffotograffau neu gyfraniadau o ddyfeisiau recordio eraill gan y BBC a gaiff roddi ffurflenni comisiynu.

Telir y ffi drwy ffurflen cyfraniad cyflogai drwy'r gyflogres.

Bydd yr hawlfraint yn y ffotograffau a gomisiynwyd yn eiddo i'r BBC, a bydd y cyflogai hefyd yn cytuno i ildio ei hawliau moesol mewn cysylltiad â'r deunydd, fel y bydd y ffordd o ddefnyddio a chydnabod y deunydd yn fater i'r BBC.

Patentau a Dyfeisiadau

Mae Patentau a Dyfeisiadau, gan gynnwys y rheini a wneir yn ystod cyflogaeth, yn cael eu rheoleiddio gan *Ddeddf Patentau 1977* a *Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988*.

Dyfeisiadau a wneir yn ystod cyflogaeth

Os bydd cyflogai'n dyfeisio unrhyw beth yn ystod ei gyflogaeth, rhaid iddo hysbysu ei Bennaeth Adran neu ddirprwy enwebedig ar unwaith.

Os bydd yn ofynnol, bydd y cyflogai, ar draul y BBC, yn darparu i'r BBC yr holl wybodaeth, dyluniadau a modelau angenrheidiol, i egluro sut y mae'r dyfeisiad yn gweithio.

Bydd dyfeisiad sydd wedi'i wneud gan gyflogai yn eiddo i'r BBC:

- Os oedd wedi'i wneud wrth gyflawni dyletswyddau arferol y cyflogai; *neu*

- Os oedd wedi'i wneud wrth gyflawni dyletswyddau sydd y tu allan i ddyletswyddau arferol, ond a oedd wedi'u haseinio'n benodol i'r cyflogai, ac
- yn y ddau achos y gellir disgwyl yn rhesymol i ddyfeisiad ddeillio o gyflawni'r dyletswyddau hynny .

Rhaid cymryd i'r dibenion hyn fod unrhyw ddyfeisiad arall a wneir gan gyflogai yn eiddo i'r cyflogai.

Hysbysir y cyflogai os bydd y BBC yn penderfynu peidio â gwneud cais am batent mewn perthynas â dyfeisiad a wnaed gan gyflogai yn ystod ei gyflogaeth. Bydd y cyflogai'n rhydd wedyn i wneud cais am batent ar yr amod, os caiff ei roi, y bydd hawl gan y BBC i gael trwydded ddi-dâl i ddefnyddio'r dyfeisiad.

Os rhoddir patent i'r BBC, bydd y BBC yn talu cydnabyddiaeth sy'n briodol i amgylchiadau'r cyflogai. Os oes mwy nag un dyfeisiwr, rhennir y gydnabyddiaeth rhyngddynt fel y bydd y BBC yn penderfynu. Ar ôl hynny, gall y BBC wneud taliadau pellach, yn ôl ei ddisgresiwn, fel ffafr, fel y mae'n gweld yn deg a rhesymol.

Cyfraniadau gan Gyflogeion i Raglenni'r BBC

Gall cyflogeion gael eu comisiynu o bryd i'w gilydd i gyfrannu i un o raglenni'r BBC sydd y tu allan i'w contract cyflogaeth. Gall cyfraniadau o'r fath gynnwys deunydd ysgrifenedig i raglenni, cyfansoddiadau cerddorol, sgyrsiau neu berfformiadau.

Os bydd cyflogeion yn cael eu gwahodd i gyfrannu i raglen, rhaid iddynt gael caniatâd gan eu rheolwr yn gyntaf.

Tâl

Dylai cyflogeion gael yr un lefel o ffioedd ag a fyddai'n cael ei thalu i gyfranwyr proffesiynol am waith tebyg.

Dylid talu am berfformiadau sydd wedi'u recordio i'w darlledu'n fyw. Dylid talu am berfformiadau sydd wedi'u rihyrsio, ond heb eu recordio neu eu darlledu ar lefel sy'n gymesur â maint y gwaith sydd wedi'i gyflawni.

Ni ddylid talu'n uniongyrchol i gyflogeion am ddefnyddio deunydd y maent wedi'i aseinio neu ei drwyddedu i'r Gymdeithas Hawliau Perfformio neu i'r Gymdeithas Diogelu Hawlfreintiau Mecanyddol, ac eithrio yn achos ffioedd gwreiddiol am gerddoriaeth a gomisiynwyd yn benodol.

Ni roddir Contract Hawliau Talentau'r BBC am gyfraniadau gan gyflogeion a rhaid talu am gyfraniadau gan gyflogeion drwy'r gyflogres.